




## Nadolig Llawen

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig am 3:30yp heddiw, ac yn ail-agor ar ddydd Mawrth y 6$^{ed}$ o Ionawr 2026. (Mae Dydd Llun y 5$^{ed}$ o Ionawr yn ddiwrnod H.M.S – ar gau i blant)

Hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithio yn ystod 2025, gan edrych ymlaen yn fawr at 2026. Dyma ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

## *Merry Christmas*

*The school will close for the Christmas holidays at 3:30pm today and reopen on Tuesday the 6th of January 2026. (Monday 5$^{th}$ January is I.N.S.E.T Day – closed to pupils)*

*I would like to thank you all for your support and cooperation throughout 2025, and I am very much looking forward to 2026. Wishing you all a Merry Christmas and a Happy New Year.*



## Lluniau Cyngerdd Nadolig

Mae lluniau ein Cyngerdd Nadolig bellach wedi eu llwytho i flickr. Ewch i'r Albwm i'w gweld! Hoffwn ddiolch i Anwen sy'n gyn-ddisgybl yn yr ysgol a bellach yn Ysgol Penweddig am eu tynnu.

Cyngerdd Nadolig 2025 | Flickr

## *Christmas Concert photos*

*The photos from our Christmas Concert have now been uploaded to Flickr. Please visit the album to view them. I would like to thank Anwen, who is a former pupil of the school and is now at Ysgol Penweddig, for taking them.*

*Cyngerdd Nadolig 2025 | Flickr*



## Rhifau ffôn defnyddiol

Atodaf ffurflen i'r e-bost heddiw sy'n cynnwys rhifau ffôn defnyddiol ar eich cyfer. Deallwn fod cyfnod y Nadolig yn medru bod yn gyfnod anodd i rai teuluoedd. Os hoffech gysylltu â'r ysgol yn ystod y gwyliau mi fydda i'n gwirio fy e-byst - JamesG19@hwbcymru.net

Cysylltwch os ydych yn teimlo y medrwn eich helpu mewn unrhyw ffordd.

## *Useful phone numbers*

*I am attaching a information sheet to today's e-mail which contains useful phone numbers. We understand that the Christmas period can be a difficult time for some families. If you would like to contact the school during the holidays, I will be checking my emails – JamesG19@hwbcymru.net*

*Please get in touch if you feel that we could help you in any way.*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A



**Calendr Hanner Tymor**

Bydd Calendr Hanner Tymor newydd yn cael ei greu ar gyfer Ionawr a Chwefror. Fe'i rannaf gyda chi ddechrau'r flwyddyn newydd.

***Half term Calendar***

*A new Half Term Calendar will be created for January and February. I will share with you at the beginning of the new year.*

**Dyddiadau pwysig nesaf:**

- Diwrnod Cau H.M.S : Ionawr 5ed 2026
- Tymor newydd yn cychwyn i blant : Ionawr 6ed 2026
- Diwrnod Eisteddfod Ysgol : Chwefror 13eg 2026

***Upcoming important dates:***

- *I.N.S.E.T Closure day : January 5th 2026*
- *First day of term for children : January 6th 2026*
- *School Eisteddfod : February 13th 2026*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**19/12/2025**
www.ysgolgymraeg.cymru

